

**POLICE AND CRIME PANEL**  
**PANEL HEDDLU A THROSEDD**



**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR BRAESEPT ARFAETHEDIG Y COMISIYNYDD AR GYFER 2018/19**

**Cefndir**

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel Heddlu a Throsedd a gynhwysir ym Mharagraff 3(2), Atodlen 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

**Adolygiad o'r Praesept Arfaethedig**

Rhoddyd gwybod i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am braesept arfaethedig Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh) ar gyfer 2018/19 ar 16 Ionawr 2018, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 y Ddeddf.

Ystyriodd y Panel adroddiad y Comisiynydd yn amlinellu'r praesept a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ddydd Llun, 22 Ionawr 2018.

Adolygodd Aelodau'r Panel y cynnydd arfaethedig i'r praesept i £74,739,488 (cynnydd o 4.55% o braesept 2017/18) a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 3.58% (cyfwerth â £258.12 y flwyddyn, cynnydd o £8.91 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D).

Derbyniodd y Panel gyflwyniad gan y Prif Swyddog Cyllid hefyd, a oedd yn amlygu:

- Cyllid yr Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr
- Dyraniadau Canolog (cyfran uchaf)
- Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Risgiau

Wrth graffu'r praesept arfaethedig, cododd y Panel Heddlu a Throsedd nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r fformiwla ariannu, y twf a ragwelir mewn niferoedd staffio, buddsoddiad gaiff ei gynllunio, cydweithio, comisiynu a'r cynllun arbedion.

Hefyd mynegodd y Panel Heddlu a Throsedd ei bryderon eto ynglŷn â'r Ardoll Prentisiaeth a'r anallu i gael mynediad i'r cyllid hwn yng Nghymru i ariannu'r Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu newydd o 2019/20.

Roedd y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod tra byddai'r Llu yn derbyn yr un cyfanswm o grantiau craidd ag yn 2017/18, mewn termau real roedd hyn yn ostyngiad gan nad oedd yn ystyried unrhyw chwyddiant nac unrhyw ofynion ychwanegol. Hefyd roedd yn cydnabod fod y setliad yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd yn Lloegr i gynyddu eu Treth Cyngor Band D o £12; yng Nghymru Llywodraeth Cymru sydd i ddiffinio unrhyw gap Treth y Cyngor ac nid oeddent wedi diffinio cap. Roedd y Swyddfa Gartref yn tybio y byddai'r holl luoedd yn cynyddu Treth y Cyngor o £12 wrth gyfrif y swm ychwanegol posibl oedd ar gael i Luoedd o £450m.

Ond cynigiodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnydd o £8.91 ar gyfer Gogledd Cymru i ystyried chwyddiant a phwysau ychwanegol.

### **ARGYMHELLION:**

- a) Fod y praesept yn cael ei gynyddu i £74,739,488.
  - Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 3.58% - mae hyn yn gyfwerth â £258.12 y flwyddyn, cynnydd o £8.91 y flwyddyn neu 17c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D
  - Dyma gynnydd o 4.55% o'i gymharu â phraesept 2017/18
- (b) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi bod toriadau o £1.479 miliwn wedi'u nodi ar gyfer 2018/19.
- (c) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi y bydd £0.717 miliwn o'r toriadau yn cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.
- (d) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi y bydd £0.762 miliwn pellach yn cael ei fuddsoddi mewn swyddi rheng flaen o'r cynnydd ychwanegol yn y praesept.
- (e) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi bod y setliad grant uwch na'r disgwyl (£0.696 miliwn) wedi'i ddefnyddio i liniaru'r toriadau arfaethedig, ac felly'n diogelu 15 swydd Swyddog rheng flaen.
- (f) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi y bydd y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor yn is o lawer na thybiaeth y Swyddfa Gartref o £12.
- (g) Fod y Panel Heddlu a Throsedd yn nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:
  - Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu 3.58% yn 2018/19 a 3.44% yn 2019/20, 4.18 yn 2020/21, 4.19% yn 2021/22 a 3.44% yn 2022/23

- Y bydd grantiau plismona'n cael eu rhewi ar y lefelau presennol yn 2019/20 ac yna eu torri 1% bob blwyddyn o 2020/21
- Y bydd y dyfarniadau cyflog blynyddol yn 2% o fis Medi 2018
- Y bydd costau ychwanegol mewn perthynas â Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu o 2019-20 na fydd yn cael eu hariannu gan yr Ardoll Brentisiaethau yng Nghymru

**26 Ionawr 2018**